

Y Busnes o Ailgylchu: Canllaw Archwiliad Gwastraff

Canllaw cam wrth gam i ymgymryd ag archwiliad gwastraff

1. Casglu'ch cyfarpar

Bydd arnoch angen:

- tarpolin neu gynfas plastig i arllwys gwastraff arno i'w ddioli
- cyfarpar diogelu personol (PPE) addas fel y'i nodwyd drwy gynnal asesiad risg (i'ch diogelu chi a'ch dillad)
- cynwysyddion ar gyfer didoli'r gwastraff iddynt
- offer pwyso
- pin ysgrifennu a ffurflen i gofnodi eich canfyddiadau

Dylech lunio asesiad risg cyn ymgymryd ag archwiliad gwastraff i sicrhau bod yr holl risgiau wedi cael eu hystyried a'u lliniaru, e.e. trin â llaw. Sicrhewch fod yr holl gydweithwyr perthnasol wedi cael eu briffio'n iawn ar y dasg cyn dechrau ar yr archwiliad yn cynnwys eich swyddog neu dîm lechyd a Diogelwch.

2. Casglu'ch gwastraff

Casglwch eich gwastraff – gan gynnwys gwastraff cyffredinol, holl ddeunyddiau ailgylchadwy a gwastraff o'r gegin a gwastraff o finiau sbwriel os yw'n berthnasol.

Bydd angen ichi gasglu gwastraff am gyfnod penodol, felly os mai'n wythnosol caiff eich gwastraff ei gasglu, yna'r adeg gorau i ymgymryd â'ch archwiliad yw'r diwrnod cyn i'r gwastraff gael ei gasglu, gan y bydd yn rhoi gwerth wythnos o ddeunydd ichi. Bydd hyn yn eich galluogi i gyfrifo eich allbwn misol a blynyddol yn hawdd. Os caiff eich gwastraff ei gasglu'n ddyddiol, trefnwch i werth diwrnod o wastraff gael ei gadw'n ôl i chi ar gyfer yr archwiliad.

3. Didoli

Arllwyswch y gwastraff ar eich tarpolin/cynfas plastig a'i ddioli yn ôl y gwahanol fathau o ddeunyddiau gan ddefnyddio eich cynwysyddion didoli. Defnyddiwch y templed archwiliad gwastraff fel canllaw wrth benderfynu ar y nifer o wahanol fathau o ddeunyddiau.

4. Mesur

Pwyswch bob math o wastraff, gan gofio tynnu pwysau'r cynhwysydd i gael pwysau net y deunydd. Dyma eich 'pwysau net'.

5. Cofnodi

Cofnodwch ddyddiad, amser a lleoliad cynnal eich archwiliad a phwysau pob eitem ar eich ffurflen.

6. Ailadrodd x2

Pan fo'n bosibl mae'n syniad da ailadrodd yr archwiliad (camau 2-5) ddwywaith drachefn (felly cyfanswm o dair gwaith) a chael cyfartaledd o'ch cyfansymiau. Bydd hyn yn cynnig darlun mwy cywir o'r mathau a'r symiau o wastraff ac ailgylchu a gynhyrchir.

7. Canlyniadau

Gan ddefnyddio pwysau net cyfartalog pob ffrwd ddeunyddiau, cyfrifwch eich cyfanswm gwastraff ac ailgylchu blynyddol. Cyfrifwch eich cyfanswm y gwastraff rydych yn ei gynhyrchu fesul blwyddyn, er enghraifft drwy ei luosi â 52 os mai fesul wythnos y gwnaethoch fesur.

Templed Archwiliad Gwastraff

Safle:		
Dyddiad ac amser:		
Rhif Sampl:		
Deunydd:	KGs	Disgrifiad pellach
Papur		
Cerdyn		
Plastig <i>(poteli, potiau a thybiau)</i>		
Metelau <i>(caniau diodydd a thuniau bwyd)</i>		
Cartonau, yn cynnwys cwpanau coffi		
Gwydr <i>(poteli a jariau)</i>		
Gwastraff bwyd <i>(bwyd ros ben, bwyd heb ei fwyta, bagiau te ac ati)</i>		
Tecstilau heb eu gwerthu		
WEEE bach heb ei werthu		
Gwastraff arall:		
Gwastraff na ellir ei ailgylchu		
CYFANSWM		Sylwadau: